
# Rydym eisiau i blant fwyta'n iach a bod yn iach yn yr ysgol



## Mae prydau ysgol yn rhad ac am ddim i bob disgybl ysgol gynradd ym Mwrdeistref Sirol Conwy o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6.

**Mae ein bwydlenni'n bodloni'r holl safonau bwyd a maeth y mae plentyn ei angen yn ystod y diwrnod ysgol.**

Dyma'r maetholion a gaiff eu darparu yn ein bwydlen bob wythnos ar gyfer ysgolion cynradd. Mae'r llinell lorweddol yn dangos safon Llywodraeth Cymru ar gyfer y bwyd a'r maeth.




## Straeon Cinio Ysgol

Fe hoffem glywed beth yw eich barn chi am eich cinio ysgol. Rhannwch eich adborth drwy e-bost at arlwyaeth@conwy.gov.uk


# We want children to eat well and be well in school



## School meals are free of charge to all primary school learners in Conwy County Borough from Reception to Year 6.

**Our menus meet all the food and nutrient standards that a child needs during the school day.**

These are the nutrients provided every week in our primary school menu. The horizontal line shows the Welsh Government standard for the food and nutrients.




## School Lunch Stories

We'd like to hear what you think about your school lunch. Share your feedback by email to catering@conwy.gov.uk

## Grant Hanfodion Ysgol



Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer Grantiau Hanfodion Ysgol. Mae Grant Hanfodion Ysgol ar gael i helpu i brynu:

- Gwisg ysgol, gan gynnwys cotiau ac esgidiau
- Gwisg chwaraeon ysgol gan gynnwys esgidiau, cyfarpar fel bagiau ysgol a deunydd ysgrifennu
- Gliniadur a llechen (os na all yr ysgol roi benthyg yr offer i'r disgybl)
- Gwisg ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, gan gynnwys pethau fel y sgowtiaid, y geidiau, cadetiaid, crefftau ymladd, chwaraeon, celfyddydau perfformio neu ddawnsio
- Offer arbenigol ar gyfer gweithgareddau'r cwricwlwm newydd, fel dylunio a thechnoleg
- Offer ar gyfer teithiau y tu allan i oriau ysgol ar gyfer pethau fel dysgu yn yr awyr agored e.e. dillad glaw.

**Mae rhagor o wybodaeth yma: www.conwy.gov.uk/budd-daliadauaddysg**

## Cymorth a Chyngor Pellach

- Gall y **Tîm Hawliau Lles** wirio os ydych chi'n gymwys am gymorth ariannol, fel y Grant Hanfodion Ysgol, a'ch helpu gyda'r broses ymgeisio
- Mae ein **Llyfrgelloedd** yn lleoedd cynnes a chroesawgar, lle y gallwch gael gafael ar ystod o lyfrau, gweithgareddau a chymorth i gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor am ddim
- Mae'r **Timau Cymorth i Deuluoedd** yma i chi a'ch teulu. Mae angen cymorth ar bawb weithiau, edrychwch i weld pa gymorth sydd ar gael
- Mae **Tai Conwy** yn helpu pobl sydd yn, neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref a hefyd pobl sydd angen tai fforddiadwy
- Mae **Canolbwynt Cyflogaeth Conwy** yn 'siop un alwad' ar gyfer cyflogadwyedd.

**Mae rhagor o wybodaeth yma: www.conwy.gov.uk/costau-byw**

## School Essentials Grant



Welsh Government provide funding for School Essentials Grants. A School Essentials Grant is to help purchase:

- School uniform, including coats and shoes
- School sports kit including footwear, equipment e.g. school bags and stationery
- Laptop and tablet (where school is unable to loan pupil the equipment)
- Uniform for enrichment activities, such as scouts, guides, cadets, martial arts, sports, performing arts or dance
- Specialist equipment for a new curriculum activities such as design and technology
- Equipment for out-of-school-hour's trips, such as outdoor learning e.g. waterproofs.

**Find out more at: www.conwy.gov.uk/educationbenefits**

## Further Help and Advice

- The **Welfare Rights Team** can check if you're eligible for financial assistance, such as the School Essentials Grant, and help with the application process
- Our **Libraries** are warm and welcoming spaces where you can access for free a range of books, activities, and help accessing Council services
- The **Family Support Teams** are here for you and your family. Everyone needs help sometimes, see what support is available
- **Conwy Housing** help people who are, or are at risk of becoming homeless, and also people who need affordable housing
- **Conwy Employment Hub** is a one stop shop for employability.

**Find out more at: www.www.conwy.gov.uk/cost-of-living**

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn ar gyfer dysgu a chyflawni**

**Conwy County, the right environment for learning and achieving**